

Deddf Tiroedd Comin 2006: adran 19

Cais i gywiro'r gofrestr

Dylai ymgeiswyr ddarllen "Canllaw i Reoliadau Deddf Tir Comin 2006 (Cywiro, Tir Comin Heb ei Gofrestru neu Dir Comin a Gam-gofrestrwyd) (Cymru) 2017: Canllawiau i Ymgeiswyr" a dylent hefyd nodi:

- Dylai pob ymgeisydd lenwi blychau 1-8.
- Caiff unrhyw un wneud cais o dan adran 19 o Ddeddf Tiroedd Comin 2006.
- Bydd gofyn ichi dalu ffi oni bai mai diben eich cais yw cywiro camgymeriad a wnaed gan yr awdurdod cofrestru (adran 19(2)(a)) neu ddileu cofnod a gafodd ei gynnwys fwy nag unwaith (adran 19(2)(c)). Dylech ofyn i'r awdurdod cofrestru am fanylion. Bydd yn rhai ichi dalu ffi arall os bydd eich cais yn cael ei gyfeirio at y Gyfarwyddiaeth Gynllunio, oni bai mai diben eich cais yw cywiro camgymeriad a wnaed gan yr awdurdod lleol neu ddileu cofnod a gafodd ei gynnwys fwy nag unwaith.

At ddefnydd y swyddfa'n unig y mae'r adran hon.

Stamp swyddogol

Rhif y Cais

1. Awdurdod Cofrestru Tiroedd Comin

Nodwch enw'r awdurdod cofrestru tiroedd comin.

At:

Ticiwch un o'r blychau isod i gadarnhau eich bod:

wedi amgáu'r ffi briodol
ar gyfer y cais hwn

neu

wedi gwneud cais o dan adran 19(2)(a) neu (c) oherwydd
bod yr awdurdod lleol wedi gwneud camgymeriad

2. Enw a chyfeiriad yr ymgeisydd

Os oes mwy nag un ymgeisydd, dylech nodi enwau a chyfeiriadau pob un ohonynt yn llawn. Gallwch ddefnyddio dalen ar wahân os bydd angen. Nodwch deitl llawn y sefydliad neu'r busnes os ydych yn gwneud cais ar ran corff o'r fath. Os byddwch yn nodi chyfeiriad e-bost yn y blwch priodol, mae'n bosibl y bydd yr awdurdod cofrestru neu bobl eraill (e.e. gwrthwynebwyr) yn cysylltu â chi drwy'r e-bost. Os na fydd blwch 3 yn cael ei lenwi, bydd unrhyw ohebiaeth a hysbysiadau yn cael eu hanfon at yr ymgeisydd cyntaf.

Enw:

Cyfeiriad:

Cod Post:

Rhif ffôn:

Cyfeiriad e-bost:

3. Enw a chyfeiriad eich cynrychiolydd, os oes un:

Dylech lenwi'r blwch hwn os ydych wedi gofyn i gynrychiolydd, e.e. cyfreithiwr, ymdrin â'r cais ar eich rhan. Os ydych, bydd yr holl ohebiaeth a hysbysiadau yn cael eu hanfon at yr unigolyn neu'r sefydliad / busnes a enwir yma. Os byddwch yn nodi cyfeiriad e-bost yn y blwch priodol, mae'n bosibl y bydd yr awdurdod cofrestru neu bobl eraill (e.e. gwrthwynebwyr) yn cysylltu ag ef drwy'r e-bost.

Enw:

Cyfeiriad:

Cod Post:

Rhif ffôn:

Cyfeiriad e-bost:

4. Y rheswm dros eich cais i gofrestru tir a'r meini prawf cymhwyster

I gael rhagor o fanylion am y gofynion sy'n gysylltiedig â chais, dylech gyfeirio at Atodlen 1 i Reoliadau Deddf Tiroedd Comin 2006 (Cywiro, Tir Comin Heb ei Gofrestru neu Dir Comin a Gam-gofrestrwyd) (Cymru) 2017.

Nodwch rif yr uned yn y gofrestr y mae'r cais hwn yn ymwneud â hi:

Nodwch rif yr hawliau y mae'r cais hwn yn ymwneud â nhw (os yw hynny'n berthnasol):

Ticiwch un o'r blychau isod i ddangos beth yw diben eich cais (ceir disgrifiad yn adran19(2) o Ddeddf Tiroedd Comin 2006 neu gallwch gyfeirio at y canllawiau). Ydych chi'n gwneud cais i:

Gywiro camgymeriad a wnaed gan yr awdurdod cofrestru tiroedd comin

Cywiro unrhyw gamgymeriad arall sy'n gymwys

Dileu cofnod sydd wedi'i gynnwys fwy nag unwaith yn y gofrestr

Diweddarau manylion unrhyw enw neu gyfeiriad y cyfeirir atynt mewn cofnod

Cofnodi crynodiad neu grebachiant yn sgîl dŵr (accretion neu diluvion)

5. Disgrifiwch beth yw diben eich cais i gywiro'r gofrestr a disgrifiwch y newid yr ydych yn gofyn i'r awdurdod ei wneud

Esboniwch pam y dylai'r gofrestr gael ei newid a sut, yn eich barn chi, y dylai gael ei newid

6. Dogfennau ategol

Rhestrwch yr holl gydsyniadau, dogfennau a mapiau sy'n cael eu cyflwyno gyda'r cais, gan gynnwys tystiolaeth am y camgymeriad ar y gofrestr. Nid oes angen cyflwyno copïau o ddogfennau a gyhoeddwyd gan yr awdurdod cofrestru neu ddogfennau yr oedd yn barti iddynt, ond mae dal angen ichi eu rhestru. Gallwch ddefnyddio dalen ar wahân os bydd angen.

7. Unrhyw wybodaeth arall sy'n gysylltiedig â'r cais

Rhestrwch unrhyw faterion eraill y dylid eu dwyn at sylw'r awdurdod cofrestru (yn enwedig os disgwylir i unigolyn sydd â diddordeb yn y tir herio'r cais i'w gofrestru). Dylech roi manylion llawn yma neu ar ddalen ar wahân os bydd angen.

8. Llofnod

Rhaid i'r cais gael ei lofnodi gan bob ymgeisydd unigol, neu gan y swyddog a awdurdodwyd i wneud hynny ar ran sefydliad neu fusnes)

Llofnodion:

Dyddiad:

NODYN I ATGOFFA'R YMGEISYDD

Eich cyfrifoldeb chi yw dweud y gwir wrth gyflwyno'r cais a'r dystiolaeth gysylltiedig. Mae'n bosibl y byddwch yn cyflawni trosedd os byddwch, o friad, yn darparu tystiolaeth gamarweiniol neu anwireddus, ac os gwnewch chi hynny, mae'n bosibl y cewch eich erlyn. Dylech gadw copi o'r cais a'r holl ddogfennau cysylltiedig.

Deddf Diogelu Data 1998: Ni ellir trin y cais nac unrhyw sylwadau a ddaw i law yn gyfrinachol. Er mwyn penderfynu ar y cais, bydd gofyn i'r awdurdod cofrestru tiroedd comin ddatgelu gwybodaeth a gafodd oddi wrthych i unigolion a chyrrff eraill. Gallai'r rheini gynnwys awdurdodau lleol eraill, Adrannau'r Llywodraeth, cyrff cyhoeddus, sefydliadau eraill a'r cyhoedd. Mae'n bosibl y bydd copi o'r ffurflen hon ac unrhyw ddogfennau cysylltiedig yn cael eu datgelu os ceir cais am wybodaeth o dan Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 neu Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.